

# CLUB LIFE

*Empower, Engage, Sustain*

## Gwneud Hoci'n Ddiogel – Canllawiau cyffredinol i glybiau

Mae'n hanfodol bod eich clwb hoci'n lle diogel i bobl ifanc fwynhau chwarae'r gamp. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau bod y gweithgareddau hoci'n ddiogel ac yn hwyl.

### Swyddogion Lles Clwb

Mae'n rhaid i bob clwb sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc fod â Swyddog Lles. Dylent fod yn gyfrifol am weithredu'r polisi amddiffyn plant a dylid cael disgrifiad swydd penodol. Hefyd, bydd rhaid iddynt fynychu hyfforddiant i'w cefnogi yn eu rôl a chael cefnogaeth lawn pwyllgor y clwb.

### Polisiau a gweithdrefnau

Mae Polisiau a gweithdrefnau Hoci Cymru ar gyfer gwneud eich clwb yn lle diogel ar gael yn <http://hockeywales.org.uk/about/safeguarding>

Dylai pob clwb fod â'r polisiau a'r gweithdrefnau canlynol:

- Polisi Amddiffyn Plant

Dylai hwn gynnwys:

- Gwybod pryd a sut i roi gwybod am bryder, honiad neu ddatgeliad am arfer gwael neu gam-drin posib
- Gyda phwy mae cysylltu os bydd pryder am les plentyn neu ddigwyddiad penodol yn gysylltiedig â hyn
- Canllawiau – Cludiant, Newid, triplau, digwyddiadau, Cyfryngau Cymdeithasol

**Cofiwch, NID cyfrifoldeb eich clwb chi yw penderfynu a yw plentyn yn cael ei gam-drin ond mae'n gyfrifoldeb arnoch i WEITHREDU ynghylch unrhyw bryderon sydd gennych**

Dylai clybiau fod â **Chod Ymddygiad** a chyfeirio ato

Dylid cael Cod ymddygiad ar gyfer hyfforddwyr, gwirfoddolwyr, gwylwyr, rhieni/gofalwyr a chyfranogwyr. Dylai'r rhain gael cyhoeddusrwydd a'u mabwysiadu gan bawb.



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



## Iechyd a Diogelwch

- Dylai hwn gynnwys manylion am y canlynol:
- Gweithdrefnau asesu risg
- Ffurflenni caniatâd y cyfranogwyr - manylion argyfwng, cefndir meddygol, caniatâd i dynnu lluniau
- Sut i ymateb i ddigwyddiad neu ddamwain
- Person cyswllt

## Datganiad / Polisi Ecwiti

Dylai hwn nodi y dylid trin hawliau, urddas a gwerth pawb yn gyfartal yng nghyd-destun eu camp. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad y clwb.

## Recriwtio

Rhaid i bob hyfforddwr, arweinydd, swyddog, gwirfoddolwr a staff cyflogedig sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc gael eu sgrinio'n briodol i sefydlu eu haddasrwydd i weithio gyda'r grŵp oedran hwn. Rhaid i hyn gynnwys:

- ✓ Cwblhau archwiliad llwyddiannus gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd <http://hockeywales.org.uk/about/safeguarding>
- ✓ O leiaf 2 eirida wedi'u derbyn a'u gwirio
- ✓ Gwirio cymwysterau

## Ystafelloedd Newid

Dylai plant a phobl ifanc gael eu goruchwyllo gan ddau aelod o staff bob amser wrth ddefnyddio ystafelloedd newid. Ni ddylai oedolion sy'n defnyddio'r un cyfleusterau gael cawod na newid yr un pryd â'r plant. Rhaid gwahanu'r rhywiau bob amser. Os bydd plentyn yn teimlo'n anghyfforddus wrth newid neu gael cawod yn gyhoeddus, ni ddylid rhoi pwysau arno i wneud hynny. Yn hytrach, dylid ei annog i gael cawod neu newid ar ôl mynd adref.

Os oes plant anabl yn defnyddio'r clwb, gwnewch yn siŵr eu bod nhw a'u gofalwyr yn cael dewis sut ddylent gael help

## Gemau Oddi Cartref

Mae'r clwb dal yn gyfrifol am y ddyletswydd o ofal i'w bobl ifanc wrth chwarae gemau oddi cartref. Dylai'r rhai sy'n mynd gyda thimau i gemau oddi cartref ddeall y polisiau a'r gweithdrefnau'n llawn, a sicrhau bod canllawiau wedi'u llunio mewn perthynas â chyfathrebu â rhieni, cludiant, goruchwyliaeth a staffio.



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



## Cludiant

Dylai'r canlynol gael eu hystyried wrth ddefnyddio cludiant

- Defnyddio cwmni cludo sydd ag enw da a sicrhau bod yr holl yrwyr wedi cael eu sgrinio'n briodol
- Darparu digon o oruchwyliaeth (rheolwr tîm/ GCA)

Wrth gwrs, rhaid osgoi cludo plentyn ar ei ben ei hun, ond rydym yn cydnabod, o dan rai amgylchiadau, bod hyn yn rhan annatod o gyfranogiad plentyn mewn hyfforddiant a chystadlaethau. Os yw'r holl ddewisiadau eraill wedi cael eu hystyried a bod rhaid i oedolyn gludo plentyn, ceir nifer o fesurau diogelwch i'w rhoi ar waith i leihau'r risg:

- Dylai'r gyrrwr, fel pob hyfforddwr / gwirfoddolwr yn eich sefydliad sydd â hawl i fod gyda phlant heb oruchwyliaeth, gytuno, os yn briodol, i archwiliad yn ei ddilysu.
- Dylai rhieni gael gwybodaeth am y person a fydd yn cludo eu plentyn, y rhesymau dros hynny a beth fydd hyd y siwrnai.
- Dylai person arall, nid y gyrrwr, siarad â'r plentyn am y trefniadau cludiant, i gadarnhau ei fod yn gyfforddus â'r trefniadau.
- Rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod ganddo yswiriant i gludo eraill, yn enwedig os yw'n cael tâl neu'n hawlio treuliau.
- Dylai'r gyrrwr geisio cael mwy nag un plentyn yn y car.

Am fwy o wybodaeth am gludiant, dilynwch y ddolen isod:

<https://thecpsu.org.uk/resource-library/2013/guidelines-on-transporting-a-child-or-young-person-in-your-car/>

## Ffotograffiaeth a Fideos

Rhaid i'r holl ffotograffiaeth a'r fideos gydymffurfio â pholisi amddiffyn plant y clwb. Dylai pawb fod yn wyladwrs oherwydd ceir tystiolaeth bod rhai unigolion yn ymweld â digwyddiadau chwaraeon er mwyn tynnu lluniau amhriodol.

Dylai pawb yn y clwb deimlo'n gyfforddus i fynd at unrhyw un i ofyn pwy ydyw os nad yw'r clwb yn ei adnabod.

<https://thecpsu.org.uk/resource-library/2013/guidance-on-photographing-and-videoing-children-in-sport/>



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



## Cyfryngau Cymdeithasol

Gyda'r holl dechnoleg newydd sy'n dod i'r amlwg, mae potensial hefyd am gamddefnyddio. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau rhyngweithiol i ddefnyddwyr yn cynnwys: seibr fwlio, meithrin perthynas amhriodol a cham-drin posib gan ysglyfaethwyr ar-lein, dwyn hunaniaeth a bod yn agored i gynnwys amhriodol, gan gynnwys hunan-niweidio, hiliaeth, pornograffi oedolion a chasineb. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich polisiau a'ch gweithdrefnau'n diogelu rhag hyn. Defnyddiwch y Briff CPSU i'ch tywys drwy beth i'w wneud:

<http://www.sportandrecreation.org.uk/sites/sportandrecreation.org.uk/files/NSPCC%20-%20Social%20Media%20strategies%20for%20sport.pdf>

## Gyda phwy y gallag gysylltu os oes gennyf gwestiynau nen bryderon?

Swyddog Lles y clwb yw'r person cyswllt cyntaf yn eich clwb. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddog Arweiniol Hoci Cymru ar gyfer Diogelu ar e-bost [safeguarding@hockeywales.org.uk](mailto:safeguarding@hockeywales.org.uk) neu ar ei ffôn symudol 07974783753

Os oes arnoch angen help i sicrhau bod eich clwb yn ddiogel, cysylltwch â ni. Gallwn eich helpu i ddatblygu polisiau a gweithdrefnau a'u hymgorffori yn eich clwb

### Useful contacts

- NSPCC [www.nspcc.org.uk](http://www.nspcc.org.uk)
- Llinell gymorth amddiffyn plant 0808 800 5000
- Childline: 0800 1111

Os ydych yn meddwl bod unrhyw blentyn mewn perygl difrifol cysylltwch â'r heddlu ar unwaith.



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)

